**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth am 7:00 y.h. 16 o Fawrth 2021 drwy Zoom .**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd). Avril Jones (Is-gadeirydd), Iola Parry, Alan Pritchard, Richard Robinson, Gwion Llwyd, Beca Brown, Hefin Jones, Haf Williams, Goronwy Hughes, Martin Jones, Meirwen Lloyd

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Dylan Jones

**Clerc:** Meirion Jones

**768. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd am bresenoldeb.

**769. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodwyd uchod

**770. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**771. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Chwefror 2021**

Cadarnhawyd cofnodion 16 Chwefror 2021 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**772. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Dim byd penodol dim ond yr eitemau sydd ar agenda heno

**773. Presenoldeb (cyfarfodydd, ar lein)**

Atgoffwyd pawb gan y Cadeirydd o'u cyfrifoldebau a'r pwysigrwydd i ymateb i e-byst ble mae'r gofyn oddiwrth y cyd aelodau a'r clerc ac hefyd i anfon ymddiheuriadau os bydd aelod yn methu dod i gyfarfod o'r cyngor neu un o'i bwyllgorau.

**774. Gornel yn ymyl "cwt band", Llanrug**

Nodwyd fod cyflymder traffig yn teithio o gyfeiriad Pwll Moelyn hyd at y Sgwâr yn gyrru ar gyflymder. Oherwydd fod ceir yn parcio gyferbyn a cyffordd Ffordd Glan Ffynnon roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i weld i gyfeiriad y Sgwâr a Pwll Moelyn.

**Penderfyniad:** Gofyn wrth Gyngor Gwynedd am osod drych gyferbyn a cyffordd Glanffynnon i'w gwneud yn haws i weld y ddwy ffordd

**775. I dderbyn diweddariad ar weithgareddau yn ymwneud a'r fynwent.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y fynwent fod yr eitemau yma wedi eu trafod:-

- Dim symudiad ar hyn o bryd gyda'r asesiad risg;
- Fod mainc a osodwyd er cof am Donald Owen wedi ei gosod ac mae'n edrych yn dda;
- Mae'r broses o ddigideiddio'r fynwent yn parhau;
- Fod y pwyllgor am ail edrych ar drefniadau casglu sbwriel y fynwent
- Nodwyd fod y Cynghorydd Phil Roberts wedi eistedd lawr fel Is-Gadeirydd y pwyllgor

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad

**776. I dderbyn diweddariad parthed materion fel a ganlyn:**

**a)** Trefniadau ar gyfer addurniadau Nadolig
**b)** Ymateb i'r ymgynghoriad ar sefyllfa biniau, cyfarfod a swyddog o Gyngor Gwynedd ynghyd a penderfyniad ar leoliadau biniau
**c)** Cyfrifoldeb ychwanegol ar y cyngor yn sgil Deddfwriaeth ddaeth i rym ar 1af o Fawrth yma yn Nghymru sydd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i unrhyw un ysmygu ar gaeau chwarae. Mae'r Ddeddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyngor roi arwyddion i fyny, neu os ddim buasai'r cyngor yn gallu cael dirwy o £200.

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau fod y pwyllgor wedi cyfarfod i drafod trefniadau goleuadau Nadolig. Adroddwyd fod y strwythur yn ei le ac fod y socedi i'w gweld ar 8 lamp.

Adroddwyd fod ymgynghoriad wedi bod ar Facebook ac gyda aelodau o'r cyhoedd am leoliadau biniau addas ar gyfer sbwriel cyffredinol a baw cŵn. Mae 10 o safleoedd wedi eu adnabod ac mae'r rhestr wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd i holi yn y lle cyntaf os ydi'n bosib rhoi biniau yn y lleoliadau a adnabuwyd.

**Penderfynwyd:**

a) Symud ymlaen a trefniadau am addurniadau Nadolig;
b) Cysylltu a Cyngor Gwynedd gyda rhestr o leoliadau;
**c)** Gosod yr arwyddion Cofid yn y gampfa ac arwyddion dim ysmygu ger pob mynediad i'r meysydd chwarae**.**

**777. Fod y cyngor yn cymeradwyo creu 'Pwyllgor Bwyd' ac fod y pwyllgor yma yn adrodd yn ôl i'r cyngor ar weithgareddau'r cynllun.**

Adroddwyd fod yn cynllun dosbarthu bwyd yn mynd yn ei flaen yn dda iawn gyda 41 o aelwydydd yn derbyn pecynnau bwyd. Mae pwyllgor wedi ei sefydlu sydd yn cynnwys aelodau o'r cyngor sydd yn gwirfoddoli gyda'r bwyd ac rydym wedi bod yn gwneud ceisiadau grantiau ayyb ac wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant am oergell. Nodwyd yn sgil y gwaith yma fod angen sefydlu yn ffurfiol y pwyllgor a bydd yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn.

**Penderfynwyd:** Sefydlu Pwyllgor Bwyd

**778. I dderbyn diweddariad ar gynllun Fairshare (dadansoddiad o'r holiadur wedi atodi er gwybodaeth)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones am y nifer sydd yn derbyn cymorth:

- Mae 41 eiddo yn derbyn pecyn bwyd;
- Hyn yn 61 o bobl, 51 Oedolyn a 10 plentyn
- Roedd 29 yn cael eu ystyried yn oedolion bregus
- 8 cwpl a 4 teulu gyda plant

Nodwyd fod offer iechyd a diogelwch wedi dderbyn ar gyfer y gwirfoddolwyr sef cardiau adnabod a siacedi melyn (mae pob aelod i gael un o rhain) ynghyd a torch.

Fe obeithir arwyddo les dros dro gyda Cyngor Gwynedd am ddarn o'r ysgol yn Cwm.

Fod grant wedi dderbyn i brynu oergell fydd yn ei gwneud yn bosib i ni nawr ddarparu mwy o fwyd ble bydd angen ei gadw'n oer.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**779. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Y Gyllideb**

Y Cyngor wedi penderfynu ar godi y treth 3.7% fel yr argymhelliad.

**Premiwm Treth Cyngor ar ail Gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.**

Cytunwyd ar ôl ddadl hir i godi y dreth ychwanegol ar ail gartrefi a tai gwag i 100%. Bydd hyn yn golygu tua £3m ychwanegol i ariannu y strategaeth Tai, £15m dros y 5 mlynedd o'r strategaeth. Fydd na bosib rŵan hefyd i fynd ar ôl Llywodraeth Cymru i ddeddfu.

**Panel Polisi Cynllunio**

Gwaith ymchwil manwl wedi ei wneud o'r sefyllfa bresennol ynglŷn â tai sydd yn cael ei defnyddio fel cartrefi gwyliau. Yn Gwynedd mae'r canran o dai Haf yn 11% ac yn Ynys Môn 10%, mae cyfartaledd Cymru yn 2.5%.. Yn dilyn y gwaith ymchwil yr uned polisi wedi dod i fyny hefo 6 o Argymhellion. Y ddau mwyaf ymarferol i'w defnyddio ar y funud yw ehangu yr ardaloedd lle does dim ond Tai Marchnad Lleol yn cael eu caniatáu ac yn ail rhoi amod ar tai newydd yn dweud bod rhaid iddynt fod yn dai preswyl ac oes dim modd cael eu defnyddio fel tai gwyliau.

**Cynllun Datblygu Lleol**

Ar ôl 4 blynedd mae'n ofynnol i adolygu y Cynllun uchod felly fydd yr adolygu yn cychwyn yn mis Gorffennaf eleni. Mi fydd yn adolygiad cynhwysfawr. Bydd yn cynnwys edrych ar safleoedd lle ma dynodiadau tai yn y cynllun presennol  i weld os ydynt yn dal i adlewyrchu anghenion eu ardaloedd. Mi fydd Cynghorau Cymuned ymysg eraill yn cael mewnbwn i'r adolygiad

**Cyd Bwyllgorau Corfforaethol i'r rhanbarthau**

Ymgynghoriad wedi bod, yn debyg fod y Llywodraeth eisiau symud ymlaen hefo creu y cyd bwyllgorau uchod Fydd 6 sir gogledd Cymru yn un rhanbarth.

**Strategaeth Cynllunio y gogledd**

Dogfen newydd wedi ei gyhoeddi, fydd yn gorfodi rhanbarthau i gynllunio yn strategol ar draws y rhanbarthau, e.e. ffyrdd, lleoliadau gwaith, ac hefyd lleoliadau i dai.

**Yn Lleol**

**Gor yrru allt Ceunant**.

Swyddogion wedi cytuno i symud yr arwydd 30mya rhyw 50m i fyny y ffordd. I symud o yn bellach i fyny i dop yr allt bydd rhaid gwneud asesiad traffig, maent wedi cytuno i wneud hyn hefyd, tra yn y cyfamser gosod arwydd modern hefo cefndir melyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**780. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca brown nad oedd llawer i adrodd dim ond ei bod wedi mynychu hyfforddiant anwytho ar y rôl.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**781. Ceisiadau am gymorth ariannol**

**a) Band Llanrug**

Fe dangosodd y Cynghorydd Hefin Jones ddiddordeb yn yr eitem yma ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.

**Penderfynwyd:** Cyfrannu £800 tuag at y band.

**782. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. [https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search](https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search)**

a) **Rhif y Cais:** C21/0205/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Codi sied amaethyddol ar gyfer porthiant a lloches da byw yn ystod y gaeaf.

**Ymgeisydd:** Mr Dafydd Lloyd Owen

**Cyfeiriad:** Tal Y Sarn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4BS

**Cyfeirnod Grid:** 253462.3, 364149.31

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C21/0143/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Gosod sied o fewn gardd

**Ymgeisydd:** Berta Rosen

**Cyfeiriad:** 3, Plas Pant Afon, Ceunant, Caernarfon, LL55 4RA

**Cyfeirnod Grid:** 252455.71, 362013.74

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 20 Ebrill 2021